





# 1 Tanycastell, Dolwyddelan

## £375,000 Freehold

Ty Hanesyddol / Historical Home • Tri Ystafell Wely / Three great sized bedrooms • Ardal Gwledig Tawel / Peaceful Rural Setting • Lle Preifat i Barcio / Private Driveway • Plot Mawr gyda Gerddi Swmpus / Large Plot with Lawns • Grade II Listed Building and Land • Large Log Burners • Nodweddion Gwreiddiol / Original Features • Teimlad Hanesyddol i'r Eiddo / Historic Character Throughout • Bywyd Natur / Wildlife-Rich Environment

catra



Council Tax band: D
Tenure: Freehold

EPC Energy Efficiency Rating: F

EPC Environmental Impact Rating: G

- Cartref Gradd II rhestredig llawn hanes a chymeriad Cymreig
- Tair ystafell wely
- Llawn dop o nodweddion gwreiddiol
- Wedi'i leoli mewn ardal wledig dawel
- Gardd helaeth
- Man parcio ar gyfer tri car
- Wedi'i gysylltu â dŵr a thrydan y prif gyflenwad
- System garthffosiaeth breifat trwy danc septig
- Cysylltiad band eang drwy gopr (ADSL)

- *A very special Grade II listed home, full of Welsh history and character*
- *Three bedrooms*
- *Packed with original features*
- *Located in a peaceful rural area*
- *Generous garden*
- *Parking for three vehicles*
- *Connected to mains water and electricity*
- *Private drainage via a septic tank*
- *Broadband connection via copper (ADSL)*

Wedi'i leoli ychydig islaw Castell Dolwyddelan ac yng nghysgod Moel Siabod, mae 1 Tan y Castell yn rhan o ffermdy o'r 17eg ganrif sy'n rhan annatod o stori leol Eryri.
Roedd y tŷ'n gartref i John Jones, un o bregethwyr mwyaf dylanwadol Cymru. Mae cofeb Gradd II iddo ef a'i frodyr yn sefyll wrth y fynedfa — marc distaw ar y pwysigrwydd mae'r lle hwn wedi'i ddal yng nghalon y gymuned. Mae'r adeilad ei hun wedi'i restru'n Gradd II* am ei werth pensaernïol a hanesyddol — yn enghraifft brin o bensaernïaeth leol.

Wedi'i drefnu bellach fel cartref tri llofft, mae'r lle wedi'i gynnal yn ofalus, gyda llawer o'r deunyddiau gwreiddiol a manylion traddodiadol yn aros yn eu lle. Mae lloriau llechi a phren yn rhedeg drwy'r tŷ, gyda trawstiau noeth a thanllwyth coed yn angori'r brif ystafell fyw. Mae'r cynllun yn cynnwys tri llofft, dwy ystafell ymolchi, cegin gynnes a thraddodiadol, ac ystafell fyw sy'n agor i olygfeydd o'r goedwig a'r caeau cyfagos.

Mae hwn yn gartref i rywun sy'n cael ei ddenu at lefydd â chynhesrwydd ac enaid — lle i roi gwreiddiau, magu teulu, neu fyw'n agosach at rythmau naturiol. Tu allan, mae nant yn rhedeg ar hyd ffîn y tir, ac mae adar megis gwenoliaid, tylluanod, a hyd yn oed dyfrgwn yn ymwelwyr cyson. Mae'r tŷ yn rhan o blot a rennir, gyda theimlad hael ac agored dros y dyffryn.

Yn fwy na chartref, mae 1 Tan y Castell yn cynnig cyfle i fod yn rhan o stori barhaus y lle hwn — i fyw'n dawel ynddo, ac i'w siapio'n dyner fel ac y mynnwch.

*Set just below Dolwyddelan Castle and in the shadow of Moel Siabod, 1 Tan y Castell forms part of a 17th-century farmhouse with deep roots in the local story of Eryri.*
*The house was once home to John Jones, one of the most influential preachers in Welsh history. A Grade II listed monument to him and his brothers stands at the entrance, a quiet marker of the significance this place holds in the life of the community. The building itself is Grade II* listed for its architectural and historic interest — recognised as a rare example of local vernacular tradition.*

*Now arranged as a three-bedroom home, the space has been carefully maintained, with many of its original materials and details left intact. Slate and timber flooring run throughout, with exposed beams and a wood-burning stove anchoring the main living space. The layout includes three bedrooms, two bathrooms, a warm and traditional kitchen, and a living room that opens onto views of surrounding woodland and fields.*

*This is a house for those drawn to places with soul — somewhere to put down roots, raise a family, or live in closer rhythm with nature. Outside, a stream traces the boundary, and the grounds are visited by swallows, owls, and even otters. The property is part of a shared plot, with a generous sense of space and an open view across the valley.*

*More than a home, 1 Tan y Castell offers the chance to be part of the ongoing story of this place — to live quietly within it.*



**Cegin / Kitchen**


Mae'r drws ffrynt yn agor i'r gegin a'r ystafell fwyta – gofod cynnes gyda lloriau carreg gwreiddiol a lle tân eang gyda llosgwr coed sy'n creu naws go iawn o gartref. Mae awgrym clir o hanes yma, fel petai'r waliau'n dal i adrodd straeon y cenedlaethau fu. Mae golau naturiol yn llifo trwy'r ffenestri sy'n edrych dros yr ardd. Yn y gornel, mae cilfach handi ar gyfer peiriannau golchi neu storfa ychwanegol.

*The front door opens into the kitchen and dining area – a warm space with original stone flooring and a wide inglenook fireplace with a log burner, bringing a true sense of home. There's a clear feeling of history here, as if the walls still hold stories of generations past. Light pours through garden-facing windows. A handy nook at the end of the room provides space for laundry or extra storage.*













**Ystafell Fyw / Lounge**

Dilynwch y coridor carreg bach i'r lolfa, lle mae lle tân 'inglenook' trawiadol – nodwedd bensaernïol sy'n ganolog i'r ystafell. Mae'r lolfa yn fawr ond yn glyd, gyda dwy ffenestr sy'n edrych allan dros natur. Mae golau'n llifo'n feddal, gan greu awyrgylch dawel. O'r fan hon, mae drws gwreiddiol yn arwain at y festible ac i'r ardd, gan gysylltu'r tu mewn â'r tu allan. Mae'r ystafell yn adlewyrchu hanes y tŷ, gyda deunyddiau cyfoethog a naws stori.

*Follow the small stone hallway to the lounge, where a striking inglenook fireplace anchors the room. It's spacious yet cosy, with two windows framing views of the surrounding nature. Soft light fills the space, creating a calm and grounded feel. An original door leads to the vestibule and out to the garden, linking inside and out. Rich textures and a sense of history make this room feel like a space full of stories.*

**Fyny Grisiau / Upstairs**

Mae'r fyny grisiau yn le bach llawn cymeriad, gyda lloriau ar wahanol lefelau a llwybr cul yn arwain at WC. Mae'r waliau crwn a'r plastr meddal yn dangos gofal ac ansawdd y gwaith sydd wedi'i wneud. Lloriau pren gwreiddiol drwy'r cyfan yn ychwanegu at y naws gynnes a chlyd.


*The landing has a character all of its own, with layered levels and a narrow walkway leading to a discreet WC. Rounded plaster walls and deep reveals reflect the care and quality of the home's restoration. Original wooden floors run throughout, adding warmth and timeless texture to this beautifully quirky space.*


**Toiled / Small WC**


Toiled bach oddi ar lwybr cul ar y llawr uchaf, gyda sinc a chwpwrdd adeiledig. Er ei faint, mae'n ychwanegiad ymarferol i'r cartref ac yn adlewyrchu cynllun cymeriadol y tŷ gyda'i fynediad unigryw.

*A small WC tucked away off the upstairs landing, with a toilet, sink, and built-in cupboard. Though compact, it's a useful addition to the home, accessed via a narrow walkway that adds a touch of character and charm to the layout.*













**Ystafell Wely 1 / Bedroom 1**

Lle tawel a llawn golau, mae'r brif ystafell wely yn cynnig golygfeydd dros yr ardd drwy ffenestr sy'n fframio'r tirwedd yn hyfryd. Mae'r ystafell yn teimlo'n dawel ac wedi'i hystyried yn ofalus, gyda thonau cynnes a gweadau meddal. Mae en-suite gyda bath a chawod yn cwblhau'r lloches dawel hon.

*A peaceful and light-filled space, the main bedroom offers views over the garden through a window that frames the landscape beautifully. The room feels calm and considered, with warm tones and soft textures throughout. An en suite with both bath and shower completes this quiet, restful retreat.*

**Ystafell Wely 2 / Bedroom 2**

Y lleiaf o'r tair ystafell wely, mae'r ail ystafell yn ofod ymarferol a thawel. Mae'n ddigon mawr i ffitio gwely dwbl, ond hefyd yn addas fel stafell i blant neu swyddfa gartref. Mae'r ffenestr yn edrych allan i'r blaen, gan adael golau meddal i lifo i mewn, a'r lloriau pren yn ychwanegu at y naws gynnes a chartrefol – man distaw i ymlacio.

*The second bedroom is the smallest of the three but offers a functional and peaceful space. With room for a double bed, it would also work well as a child's room or a home office. A window to the front brings in gentle light, while wooden floors add warmth and charm — a quiet little perch to retreat to.*

**Ystafell Wely 3 / Bedroom 3**

Mae trydedd ystafell wely'r tŷ yn llawn swyn tawel ac yn teimlo'n arbennig o unigryw. Ar hyn o bryd, mae'n cynnwys dau wely sengl – yn ddelfrydol fel ystafell blant. Mae dwy ffenestr yn gadael digon o olau naturiol i mewn, a'r silffoedd llyfrau wedi'u hadeiladu a'r carped meddal yn rhoi naws gartrefol a hudolus i'r gofod.

*Bedroom three has a quiet charm and a sense of its own personality. Currently arranged with two single beds, it's a perfect space for children. Twin windows bring in soft natural light, and the room is lined with built-in bookshelves and a plush carpet underfoot — details that add to its cosy, storybook feel.*









**Garden**
Yr hyn sy’n gosod y cartref hwn ar wahân yw’r ardd eithriadol. Mae lawnt lydan yn ymestyn o flaen y tŷ, gyda golygfeydd sy’n mynd am filltiroedd – cefndir sy’n syfrdanu drwy’r tymhorau. Mae’r gofod yn berffaith ar gyfer plant yn rhedeg yn droednoeth, cinio hamddenol neu nosweithiau o dan yr awyr agored. Mae nant fach yn rhedeg ar hyd yr ardd, gan ddenu adar a bywyd gwyllt – tylluanod, bwncathod, cadnoid, gwennoliaid ac hyd yn oed dyfrgwn. Mae’r cwrt blaen yn eiddo i Rhif 1 Tan y Castell, gyda hawl tramwy i Rhif 2. Wrth adael drwy’r festible a rennir, mae’r ardd yn eich cyfarch fel darn o gefn gwlad – hael, ymlaciol ac yn wirioneddol arbennig. Mae'r tir hefyd yn dod gyda garej ac outbuilding.

*What sets this home apart is its remarkable garden. A wide lawn stretches out front, with views that roll for miles — a stunning backdrop year-round. It’s perfect for barefoot children, relaxed lunches or evening chats under the sky. A stream runs along the edge, attracting birds and wildlife. Owls, buzzards, foxes, swallows and even otters have been spotted. The front courtyard is owned by No. 1, with access granted to No. 2. Step through the shared vestibule and into a garden that feels more like countryside — generous and grounded. The land also comes with a garage and outbuilding for storage.*










TANYCASTELL
CARTREF GENEDIGOL
TRI GWEINIDOG
A DIACON
JOHN JONES 1796 1857
DAVID JONES 1805 1868
WILLIAM JONES 1801 1885
A
RICHARD JONES
GWEISION FFYDDLAWN
I GRIST YN NGHYMRU
AC AMERICA
D.LL.





















Energy Efficiency Rating
Current
Potential
Very energy efficient - lower running costs
(92+) A
(81-91) B
(69-80) C
(55-68) D
(39-54) E
(21-38) F
(1-20) G
Not energy efficient - higher running costs
36
84
England, Scotland & Wales
EU Directive 2002/91/EC


Environmental Impact (CO2) Rating
Current
Potential
Very environmentally friendly - lower CO2 emissions
(92+) A
(81-91) B
(69-80) C
(55-68) D
(39-54) E
(21-38) F
(1-20) G
Not environmentally friendly - higher CO2 emissions
14
5
England, Scotland & Wales
EU Directive 2002/91/EC


Living Room
218.78 sq ft
Dining Room
214.95 sq ft


Bedroom
124.81 sq ft
Other
62.30 sq ft
Other
34.09 sq ft
Bedroom
146.67 sq ft
Bedroom
46.96 sq ft
Bedroom
74.58 sq ft